



Teitl: Title:	Polisi Defnydd Derbyniol o TG i Fyfywyr IT Acceptable Use Policy for Students
Fersiwn: Version	4
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfywyr / Students

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Impact Assessment
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Cyfarwyddwr Technoleg / Director of Technology		
Ymgynghoriad / Consultation:			
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group		
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:		17/1/24
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	-
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
Corff Llywodraethu / Governing Body:		-	
Dyddiad Adolygu: Review Date:	17/1/27		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Tabl Cynnwys

Enw'r Strategaeth / Polisi

1. Diben	2
2. Cwmpas	2
3. Cyfrifoldebau	2
4. Adnoddau TG y Coleg - Diben a Defnydd	3
5. Radicaleiddio	3
6. Preifatrwydd	3
7. Hawlfraint a Thrwyddedau Meddalwedd	3
8. Chromebooks	3
9. Moesau Rhwydwaith	4
10. Cyfryngau Cymdeithasol	4
11. Methu â Dilyn Polisi a Thor-cytundeb	5
12. Help a chymorth	5

Strategaeth / Polisi

1. Diben

- 1.1. Mae'r Polisi hwn yn dogfennu dull y Coleg o ddefnyddio ei adnoddau meddalwedd a chaledwedd TG gan fyfyrwyr.

2. Cwmpas

- 2.1. Mae'r Coleg yn darparu cyfrifiaduron ac adnoddau rhwydweithiol at ddefnyddio myfyrwyr mewn ystafelloedd dosbarth addysgu a meysydd adnoddau eraill. Fel rhan o'r cyfleuster hwn, mae mynediad i'r rhyngwyd, cyfrifon e-bost a meddalwedd sy'n eiddo i'r Coleg ar gael ar y sail eu bod yn darparu adnoddau perthnasol i gynorthwyo myfyrwyr wrth iddynt astudio.

3. Cyfrifoldebau

- 3.1. Drwy ddefnyddio cyfrifiadur neu ddyfais symudol sy'n perthyn i Goleg Cambria, rydych yn cytuno nid yn unig i ddilyn y rheolau yn y Polisi hwn, ond hefyd yn cytuno i roi gwybod am unrhyw gamddefnydd o rwydwaith ac adnoddau'r Coleg i aelod o staff y Coleg. Mae 'camddefnydd' yn golygu unrhyw achos o dorri'r Polisi hwn neu unrhyw ddefnydd arall nad yw wedi'i gynnwys yn y Polisi Preifatrwydd ac sy'n cael yr effaith o niweidio unigolyn arall neu eu heiddo neu dorri'r gyfraith.

- 3.2. Mae'r polisiâu/gweithdrefnau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'ch cyfrifoldeb chi yw cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau. Gall torri'r polisi hwn arwain at gamau disgyblu yn cael eu cymryd yn eich erbyn.

4. Adnoddau TG y Coleg - Diben a Defnydd

- 4.1. Mae'r Coleg yn darparu mynediad i'w galedwedd cyfrifiadurol, ei rwydweithiau a'r Rhyngrwyd at ddibenion addysgol yn unig. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch a yw gweithgaredd sy'n cael ei ystyried yn addysgol, gallwch ymgynghori â'ch tiwtor neu'r tîm Gwasanaethau TG i'ch helpu i benderfynu a yw'r defnydd yn briodol.

5. Radicaleiddio

- 5.1. Radicaleiddio yw'r broses o ddod i gefnogi terfysgaeth, eithafiaeth ddi-drais sy'n gysylltiedig â therfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar ac, mewn rhai achosion, ymuno â grwpiau terfysgol. Gwaherddir defnyddio cyfrifiaduron, dyfeisiau neu rwydweithiau'r Coleg i gael mynediad at ddeunydd sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar. Mae'r coleg yn cyfyngu mynediad at gynnwys anghyfreithlon gan gynnwys deunydd hiliol a chasineb, a deunydd sy'n hyrwyddo trais neu ymosod ar unigolion neu sefydliadau ar sail grefyddol, hiliol neu ryweddol. Bydd unrhyw fyfyrwr y canfyddir eu bod yn cael mynediad at ddeunyddiau o'r fath yn cael eu riportio o dan Broses Adrodd ar Ddiogelu'r Coleg. Gall hyn arwain at hysbysu asiantaethau allanol fel yr Heddlu am y gweithredoedd.

6. Preifatrwydd

- 6.1. Darperir mynediad i'r Rhyngrwyd a'r rhwydwaith fel offeryn ar gyfer eich addysg. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i fonitro, archwilio, copïo, adolygu a storio ar unrhyw adeg a heb rybudd ymlaen llaw unrhyw ddefnydd o'r rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i'r Rhyngrwyd ac unrhyw wybodaeth sy'n cael ei drosglwyddo neu ei dderbyn mewn cysylltiad â defnydd o'r fath. Bydd yr holl ffeiliau gwybodaeth o'r fath yn eiddo i'r Coleg ac ni ddylai unrhyw ddefnyddiwr ddisgwyl unrhyw breifatrwydd o ran deunyddiau o'r fath.

7. Hawlfraint a Thrwyddedau Meddalwedd

- 7.1. Polisi Coleg Cambria yw parchu pob hawlfraint meddalwedd cyfrifiadurol a chadw at delerau ac amodau unrhyw drwydded y mae Coleg Cambria yn gyfrannog ohoni. Mae lawrlwytho a/neu osod meddalwedd heb awdurdod yn cael ei wahardd yn arbennig. Mae hyn yn cynnwys lawrlwytho meddalwedd o'r Rhyngrwyd ac o e-bost.
- 7.2. Ni fydd Coleg Cambria yn cymeradwyo defnyddio unrhyw feddalwedd heb drwydded a bydd unrhyw fyfyrwr y canfyddir eu bod yn defnyddio, neu'n meddu ar feddalwedd heb drwydded, yn destun gweithdrefnau disgyblu.

8. Chromebooks

- 8.1.** Er mwyn diogelu defnyddwyr, dyfeisiau a rhwydweithiau'r Coleg, mae mewngofnodi cais gwe (DNS) wedi'i ffurfweddu ar ein dyfeisiau Chrome OS er mwyn i wefannau gwaharddedig gael eu blocio a bydd y cais yn cael ei gofnodi, gan gynnwys enw cyfrif a chyfeiriad IP y defnyddiwr. Sylwer: mae mewngofnodi cais DNS yn rhwym wrth gyfrifon Google Coleg Cambria (e.e. 21234567@cambria.ac.uk) ac os defnyddir cyfrif i fewngofnodi i ddyfais Chrome OS personol, bydd yr hidlo a'r mewngofnodi yn dal i fod yn berthnasol. Dylid defnyddio cyfrifon Google personol ar gyfer dyfeisiau Chrome OS personol.

9. Moesau Rhwydwaith

- 9.1.** Rhaid i bob defnyddiwr gadw at reolau moesau'r Rhyngwyd a rhwydwaith, sy'n cynnwys:
- 9.1.1.** Byddwch yn gwrtais. Defnyddiwch iaith briodol.
 - 9.1.2.** Cadwch yn ddiogel. Wrth ddefnyddio'r rhwydwaith cyfrifiadurol a'r Rhyngwyd, peidiwch â datgelu gwybodaeth bersonol fel eich cyfeiriad cartref a'ch rhif ffôn. Peidiwch â threfnu cyfarfod wyneb yn wyneb â rhywun rydych wedi 'cwrdd â nhw' ar y rhwydwaith cyfrifiadurol neu'r Rhyngwyd, os ydych chi o dan 18 oed, heb ganiatâd rhiant, a beth bynnag fo'ch oedran, mewn lle diarffordd neu mewn lleoliad preifat.
 - 9.1.3.** Byddwch yn ofalus. Peidiwch â pheryglu diogelwch mynediad myfyrwyr a'r rhwydwaith cyfrifiadurol neu rwydweithiau eraill ar y Rhyngwyd. Er enghraifft, peidiwch â datgelu na rhannu eich cyfrinair ag eraill na dynwared un arall. Rhaid i'r cyfrinair fod o leiaf 8 nod o hyd ond mae cyfrineiriau hirach yn fwy diogel. Rydym yn argymhell cynnwys defnyddio ymadrodd byr sy'n hawdd i chi ei gofio.
 - 9.1.4.** Ni ddylai myfyrwyr ddefnyddio gwasanaethau Rhyngwyd y Coleg a/neu e-bost i gael neu anfon y math o ddeunydd sy'n mynd yn groes i'r gyfraith neu bolisiau cyhoeddedig y Coleg (erthyglau sy'n rhywiaethol, hiliol, anwedus, neu'n hyrwyddo ymddygiad anghyfreithlon).
 - 9.1.5.** Cyfrifoldeb deiliad y cyfrif unigol yw pob e-bost a anfonir o gyfrif e-bost.
 - 9.1.6.** Cyfrifoldeb deiliad y cyfrif unigol yw cynnwys cyfeiriadur cartref cyfrif rhwydwaith (gyriant H) a Google Drive.
 - 9.1.7.** Ni ddylid anfon negeseuon e-bost at staff y Coleg heb eu caniatâd ymlaen llaw.
 - 9.1.8.** Ni ddylai myfyrwyr ymyrryd â gosodiadau'r rhwydwaith neu'r gweithfannau.
 - 9.1.9.** Caniateir cysylltu dyfeisiau personol gan ddefnyddio'r rhwydwaith WiFi a ddarperir. Bydd y polisi hwn yn berthnasol i ddefnyddio dyfeisiau personol tra byddant wedi'u cysylltu.
 - 9.1.10.** Nid yw Coleg Cambria yn caniatáu i fyfyrwyr osod na defnyddio meddalwedd heb awdurdod na chopio na thynnu meddalwedd o ddyfeisiau a/neu rwydwaith y Coleg.

10. Cyfryngau Cymdeithasol

- 10.1. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn offeryn defnyddiol ac mae Coleg Cambria yn deall bod myfyrwyr yn cyfathrebu trwy wefannau fel Facebook ac Instagram. Fodd bynnag, mae risgiau ynghlwm wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hefyd a disgwylir i fyfyrwyr eu defnyddio'n gyfrifol p'un ai ar ddyfais coleg neu ddyfais bersonol.
- 10.2. Rhaid i bob defnyddiwr gydymffurfio â'r canllawiau canlynol wrth gyrchu safleoedd cyfryngau cymdeithasol trwy rwydwaith y coleg neu ar safle'r coleg.
 - 10.2.1. Nid yw'r defnydd o iaith amlwg rywiol nac edrych ar, creu neu rannu delweddau amlwg rywiol eglur yn cael ei ganiatáu na'i gynghori o safbwynt diogelu.
 - 10.2.2. Ni oddefir iaith ymosodol na cham-drin geiriol.
 - 10.2.3. Ni chaniateir defnyddio iaith hiliol neu eithafol a fyddai'n mynd yn groes i werthoedd y Coleg a Phrydain yn uniongyrchol, fel y nodir yn y strategaeth Prevent.
 - 10.2.4. Ni chaniateir defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion radicaleiddio neu i fynegi safbwyntiau eithafol.
 - 10.2.5. Ni chaniateir cyfathrebu ag aelodau staff ac eithrio ar safle cyfryngau cymdeithasol sefydledig y Coleg. Dylai unrhyw gyfathrebu o'r fath a ysgogir gan aelodau staff i gyfryngau cymdeithasol personol myfyriwr gael eu riportio i dîm diogelu'r Coleg.
- 10.3. Byddwch yn ymwybodol o'r canlynol wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
 - 10.3.1. Peidiwch â phostio unrhyw beth ar y cyfryngau cymdeithasol na fydddech am i eraill ei weld. Cofiwch y gallai'r hyn rydych yn ei bostio effeithio ar eich gyrfa yn y dyfodol.
 - 10.3.2. Peidiwch â theimlo dan bwysau i wneud unrhyw beth amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol fel postio lluniau neu fideos.
 - 10.3.3. Peidiwch â derbyn pobl fel ffrindiau na chymryd rhan mewn sgysiau ar y cyfryngau cymdeithasol os nad ydych yn adnabod y bobl rydych yn cyfathrebu â nhw, byddwch yn ymwybodol o "berygl dieithriad".

11. **Methu â Dilyn Polisi a Thor-cytundeb**

- 11.1. Braint, nid hawl, yw cael defnyddio rhwydwaith cyfrifiadurol a chysylltiad Rhyngrwyd y Coleg.
- 11.2. Bydd unrhyw fyfyrwr y canfyddir neu y credir eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth yn amhriodol yn cael eu hatal yn awtomatig heb rybudd.
- 11.3. Os bydd myfyriwr yn torri'r Polisi hwn ac yn torri eu cytundeb, gallai eu mynediad i'r rhwydwaith cyfrifiadurol ac i'r Rhyngrwyd gael ei derfynu am gyfnod amhenodol.
- 11.4. Gallai'r Coleg gymryd camau disgyblu eraill yn unol â'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr.

12. **Help a Chymorth**

- 12.1. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Polisi hwn neu os oes angen help

arnoch i ddefnyddio rhwydwaith y Coleg, cysylltwch â'r Gwasanaethau TG. Os sylwch ar rywun sy'n defnyddio'r rhwydwaith yn amhriodol, rhowch wybod i'ch tiwtor neu eich Gwasanaethau TG.